Telecabanau

Cawsom ymweliad diddorol iawn pan ddaeth carafan Telecabanau (cyfrifiaduron yn y gymuned) i fuarth yr ysgol. Bu cyfle i bobl leol ddefnyddio'r offer yn y garafan ac fe gafodd ein plant ni gyfle hefyd i arbrofi gyda'r cyfrifiaduron. Edrychwn ymlaen i groesawu'r garafan yn ôl eto er mwyn i ragor o blant gael cyfle i fwynhau defnyddio'r dechnoleg newydd.

Myfyrwyr

Ar ddiwedd yr hanner tymor bu'n rhaid inni ffarwelio â'r pedwar myfyriwr fu gyda ni ers mis Ionawr. Mawr yw ein diolch iddynt am eu holl waith caled a'u cwmni difyr a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Braf yw croesawu Mr Steffan Tudor atom am gyfnod o ymarfer dysgu. Bydd yn gweithio ym mlwyddyn 5/6 a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Bu Lowri Mitchell gyda ni am wythnos o brofiad gwaith ar ddechrau Mawrth. Roedd ei chymorth yn amhrisiadwy a gobeithio iddi fwynhau'r amrywiol brofiadau a ddaeth i'w rhan. Galw draw i'n gweld ni eto Lowri!

Diddori'r henoed

Prynhawn Mercher, Mawrth 4ydd aeth criw o blant yr adran Iau draw i ddiddori'r Ymddeolwyr yn Neuadd y Penrhyn. Braint oedd derbyn y gwahoddiad ac fe gafodd y plant groeso mawr. Diolch i Mrs C Mitchell a Mrs Nia Lewis am eu hyfforddi.